



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol O.M. Edwards
Llanuwchllyn
Bala
Gwynedd
LL23 7UB**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Gymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/07/2012

Cyd-destun

Mae'r ysgol yn gwasanaethu pentref Llanuwchllyn a'r ardal amaethyddol o'i chwmpas. Nid ystyrir yr ardal yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae tua 2% o'r disgyblion â hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 60 o ddisgyblion amser llawn ar y gofrestr. Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth ar wahân. Mae tua 10 % o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Mae 3% yn derbyn cymorth ar lefel gweithredu gan yr ysgol, 3% yn derbyn cymorth ar lefel gweithredu gan yr ysgol a mwy, ac mae 3% â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r holl ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig.

Ystyrir yr ysgol yn un naturiol Gymraeg. Daw 88% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Y Gymraeg yw prif gyfrwng addysg a gwaith yr ysgol. Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen gyda'r Saesneg yn cael ei chyflwyno'n raddol i blant o Flwyddyn 1 ymlaen pan yw'n briodol i'r unigolyn. Addysgir yr holl disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg o saith oed ymlaen gyda'r nod o gael y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2006. Bu rhai newidiadau staffio ers y dyddiad hwnnw, gan gynnwys un athro parhaol ychwanegol a phennaeth newydd a benodwyd ym Medi 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol O.M.Edwards yn 2011-2012 yw £3,388. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £7,732 a'r lleiafswm yw £2,745. Mae Ysgol O.M.Edwards yn safle 54ydd o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Rhagorol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y darparwr yn rhagorol oherwydd bod:

- cyflawniadau disgyblion yn saith, ac unarddeg mlwydd oed, yn gyson yn cymharu'n ffafriol iawn neu'n well na rhai disgyblion mewn ysgolion tebyg dros gyfnod;
- llawer o'r disgyblion yn cyflawni safonau da iawn yn eu gwersi ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys ychydig o ddisgyblion ag agweddau o ragoriaeth yn perthyn i'w gwaith;
- holl ddisgyblion yr ysgol yn frwdfrydig yn eu gwaith ac yn gwneud cynnydd da, ac ar adegau, cynnydd rhagorol yn ôl eu gallu;
- llawer o'r disgyblion yn cyflawni safonau uchel yn y Gymraeg, gydag ychydig yn cyflawni safonau uchel iawn, yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- llawer o'r disgyblion yn defnyddio'n ystod eang o fedrau, gan gynnwys medrau meddwl a llythrennedd yn effeithiol yn eu gwersi a'u gwaith ar draws y cwricwlwm;
- holl athrawon yn darparu profiadau dysgu symbylus perthnasol sy'n ysgogi'r ac ysbrydoli disgyblion i ddysgu ac ymfalchïo yn eu cymuned a'r traddodiadau Cymreig a diwylliannau eraill;
- ethos teuluol, gofalgar a chroesawgar lle mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus; a bod
- cymorth a chyfarwyddyd a ddarperir yn cyfrannu'n sylweddol at les y disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddysgu.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon yr ysgol ar gyfer gwella yn rhagorol oherwydd bod:

- gweledigaeth glir y pennaeth a'i disgwyliadau uchel yn cael eu hyrwyddo'n llwyddiannus gan yr holl staff, y llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned;
- y pennaeth yn rheoli newid yn effeithiol iawn er mwyn hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy yn y dysgu a'r addysgu sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau'r disgyblion;
- dealltwriaeth ragorol gan y llywodraethwyr o gryfderau'r ysgol, a'r agweddau i'w datblygu ymhellach, a'r modd y maent yn helpu i osod cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol;
- y trefniadau hunan arfarnu yn gynhwysfawr, yn fanwl gywir, ac yn mynd i'r afael â'r agweddau sydd angen eu gwella;
- y cynllun datblygu'r ysgol yn blaenoriaethu'n briodol y gwelliannau fydd yn debygol o gael effaith bellach ar safonau disgyblion, ac ansawdd yr addysgu; a bod

- yr ysgol yn ymateb yn briodol ac amserol i nifer o sylwadau a chyngor perthnasol, gan gynnwys blaenoriaethau cenedlaethol, er mwyn sicrhau gwelliannau pellach mewn safonau disgyblion a'r ddarpariaeth addysgol.

Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 godi ymhellach safonau llafar, darllen a sillafu rhai grwpiau bychain o ddisgyblion yn Saesneg, yng nghyfnod allweddol 2;
- A2 adolygu cynllunio ysgol gyfan i gynnig mwy o strwythur a chysondeb i'r cyfleoedd i ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm; a
- A3 cydweithio gyda'r awdurdod lleol i wella ansawdd a chyfleusterau'r adeilad.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i lunio astudiaeth achos ysgrifenedig, i ddisgrifio'r arferion rhagorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Rhagorol

Safonau: Rhagorol

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau'r ysgol â sgiliau sy'n briodol neu yn uwch na'r disgwyl yn ôl eu hoed. Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau ymhob un o'r meysydd dysgu, ac yn enwedig yn eu defnydd o iaith, llythrennedd a'u medrau cyfathrebu yn y Gymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yng Nghyfnod Sylfaen meithrin a derbyn yn dangos datblygiad parhaus o ran medrau ysgrifennu cynnar. Gall rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yng Nghyfnod Sylfaen Blwyddyn 1 a 2, ysgrifennu'n estynedig, gan ddefnyddio ystod o atalnodi yn gywir, ac o fewn ystod addas o gyd-destunau ysgrifenedig.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad ac yn gwrando'n dda mewn ystod o gyd-destunau. Maent yn dangos diddordeb a dyfalbarhad yn eu gwaith.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r holl ddisgyblion yn adeiladu'n dda ar eu profiadau dysgu blaenorol. Mae llawer yn dangos cynnydd da yn eu medrau llythrennedd, a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda llawer yn gwneud cynnydd da iawn. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau darllen da, gan gynnwys ychydig sydd â medrau darllen rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn rhugl, gyda mynegiant a dealltwriaeth dda iawn. Maent yn mwynhau darllen ystod o lyfrau ffuglen a llyfrau ffeithiol, ac yn cywain gwybodaeth o amryw o ffynonellau priodol. Mae pob disgybl yn hollol ddwyieithog erbyn 11 oed.

Gwneir cynnydd da gan lawer o'r disgyblion yn eu sgiliau ysgrifennu yn y ddwy iaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ysgrifennu yn doreithiog, yn estynedig i safon uchel, gan gynnwys nifer fach yn cyrraedd safonau rhagorol yn eu gwaith ysgrifenedig. Defnyddiant eu medrau ysgrifennu'n dda iawn yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm i bwrpasau gwahanol ac ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd. Nid yw medrau llafar, darllen a sillafu ychydig o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2, wedi eu datblygu cystal yn y Saesneg o'u cymharu â'u medrau yn y Gymraeg.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da iawn yn erbyn eu targedau unigol.

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6 â gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Ers 2007, mae cyraeddiadau'r disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn saith oed (lefel 2) ac yn 11 oed (lefel 4) gan mwyaf wedi bod yn gyson uwch nag yn ysgolion y teulu a'r ffigurau cenedlaethol. O gymharu ag ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â'r hawl i ginio ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn aml ymhlith y 25% uchaf dros y cyfnod yma.

Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 3) yn saith oed, yn sylweddol uwch yn y Gymraeg, ac ychydig uwch yng ngwyddoniaeth. Ym mathemateg, mae eu cyrhaeddiad yn uwch na'r cenedlaethol, ond yn is na'r teulu o ysgolion.

Yn 11 oed, mae'r canran sy'n cyrraedd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5), yn uwch nag ysgolion y teulu, a Chymru, yn y Gymraeg a gwyddoniaeth ar draws y pum mlynedd olaf. Nid ydy perfformiad y disgyblion yn Saesneg a mathemateg yn gyson gystal.

O gymharu perfformiad y disgyblion yn 11 oed gyda'u cyfoedion mewn ysgolion tebyg o ran cefndir cymdeithasol economaidd yng Nghymru, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yn Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac am y dangosydd pwnc craidd, am y pum mlynedd ddiwethaf ar y lefel ddisgwyliedig. Mae'r canlyniadau disgyblion cystal ar y lefel uwch na'r disgwyl, oni bai am y Saesneg, lle mae'r perfformiad y disgyblion wedi amrywio rhwng y 25% uchaf i'r 25% isaf yn ystod yr un cyfnod.

Drwy'r ysgol, does dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn, na yn berfformiad disgyblion â'r hawl i ginio ysgol am ddim.

Lles: Rhagorol

Mae safonau ymddygiad yn uchel. Nid yw'r ysgol wedi cael achos i wahardd unrhyw ddisgybl yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r holl ddisgyblion ar draws yr ysgol yn foesgar a chwrtais iawn. Maent yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion, ac yn gweithio'n hapus a chydwybodol iawn gyda'i gilydd o oedran ifanc.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n briodol. Mae lefelau diddordeb, brwdfrydedd ac ymroddiad bron pob un yn dda, ac yn aml yn rhagorol. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos gallu cynyddol i gyd-gynllunio ac i fynegi barn, am yr hyn y maent yn ei ddysgu. Mae hyn yn gymhelliant iddynt, ac yn ychwanegu at eu brwdfrydedd.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn frwdfrydig, ac yn deall eu bod yn cynrychioli safbwynt disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol. Mae disgyblion yn sylweddoli o oedran ifanc bod barn a llais ganddyn nhw drwy'r cyngor ysgol.

Drwy gymryd rhan a chyfrannu at ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, mae ymwybyddiaeth gref a gwerthfawrogiad dwfn gan y disgyblion o'u hardal a'r gymuned leol. Mae'r disgyblion hyn yn rhagori wrth drin a thrafod yn annibynnol ac yn aeddfed, cysyniadau yn ymwneud ag amryw o faterion moesol, cyfredol a hanesyddol.

Mae canran presenoldeb y disgyblion dros y tri thymor diwethaf ar gyfartaledd ychydig yn uwch na 96%, sy'n uwch na chyfartaledd holl ysgolion Cymru a'r teulu o ysgolion tebyg. Yn y tair blynedd cyn 2011, gwelwyd gwelliant cynyddol ymhob blwyddyn ym mhresenoldeb y disgyblion sydd yn eu gosod nawr ymhlith y 25% o ysgolion gorau yng Nghymru o'u gymharu ag ysgolion tebyg yn ôl cefndir cymdeithasol ac economaidd. Mae prydlondeb yn dda iawn.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol a dychmygus i'w disgyblion, sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol, ynghyd ag anghenion holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae'r athrawon, y cymorthyddion dysgu a'r disgyblion yn cyd-gynllunio'r themâu yn ofalus. Rhoddir lle amlwg i farn a diddordebau'r disgyblion wrth gynllunio eu profiadau dysgu. Manteisir ar ymweliadau niferus yn ogystal ag arbenigedd nifer helaeth o ymwelwyr nodedig i gyfoethogi'r dysgu ac i'r disgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cymunedol. Er enghraifft, trefnir wythnos wyddonol ac wythnos fathemateg sy'n cynnwys rhaglen gynhwysfawr ac amrywiol o weithgareddau ychwanegol i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r ymweliadau niferus a symbylus yn gyfrwng i ennyn brwdfrydedd a mwynhad, sy'n cynorthwyo mwyafrif y disgyblion i gyrraedd safonau uchel iawn.

Rhoddir sylw manwl i gynllunio sgiliau llythrennedd, creadigol, datrys problemau a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm. Mae trefniadau penodol ar y gweill i adolygu cynllunio ysgol gyfan, i gynnig mwy o strwythur a chysondeb i'r cyfleoedd i ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae'r cynlluniau ar draws yr ysgol yn cefnogi'n effeithiol datblygiad hyfedredd mewn medrau gwrando, llafar, darllen ac ysgrifennu'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ddwy iaith.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn yr ysgol yn dda iawn. Mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd parchu a gofalu am yr amgylchedd. Rhoddir cyfle da iawn i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ac ehangu eu gwybodaeth o rannau eraill o'r byd, a diwylliannau eraill, trwy brosiectau gydag ysgolion yn Nepal, a thrwy gasglu arian at achosion da ledled y byd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn rhagorol. Mae'r disgyblion oll yn ymfalchio yn eu Cymreictod, eu hardal a'u hetifeddiaeth. Darperir profiadau rheolaidd a gwerthfawr iawn o gydweithio gydag artistiaid, llenorion a cherddorion o Gymru. Mae'r disgyblion yn cystadlu'n flynyddol yn yr eisteddfod leol ac yn Eisteddfod yr Urdd.

Atgyfnerthir y dysgu yn effeithiol iawn gan arddangosfeydd lliwgar a symbylol, sy'n trwytho'r disgyblion yn eu hetifeddiaeth a'u hanes, ac arwyddocâd eu hysgol yn hanes addysg Gymraeg.

Addysgu: Da

Cynllunnir y gwersi yn fanwl i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol. Mae gwersi'n cynnwys adolygiadau effeithiol o ddealltwriaeth disgyblion o ddysgu blaenorol er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad.

Rhoddir cyfleoedd niferus a gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu medrau meddwl, er enghraifft, mewn trafodaethau bywiog yn ymwneud ac astudiaeth o hanes y gemau Olympaidd. Yn eu hastudiaeth o'r Ail Ryfel Byd, mae'r addysgu ysgogol a'r

cwestiynau craff gan yr athrawes yn galluogi'r disgyblion fynegi eu barn a dwyn perswâd ar eraill am effaith polisïau gwleidyddol yr Almaen, ar iawnderau dynol grwpiau o bobl yn ystod yr ail ryfel byd. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfleoedd blaengar i'r disgyblion werthfawrogi a pharchu diwylliannau eraill. Yn ogystal, mae'r profiadau hyn yn meithrin ymagwedd aeddfed ymysg y disgyblion am eu cyfrifoldebau tuag at ei gilydd a thuag at eraill.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn effeithiol ac yn rheolaidd. Maent yn gallu esbonio a deall yr hyn sydd ei angen i wella eu gwaith. Mae athrawon yn cofnodi sylwadau adeiladol defnyddiol ar ddiwedd y rhan fwyaf o'r gwaith yn y llyfrau.

Rhoddir i rieni a gofalwyr wybodaeth dda ac adroddiadau priodol ar gyflawniadau a lles eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae gofal, cymorth a'r arweiniad yn hyrwyddo'n effeithiol iawn datblygiad personol disgyblion gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Anogir y disgyblion i drin a thrafod materion moesol ac ysbrydol mewn gwersi ac yn sesiynau torfol fel gwasanaethau. Gofynnir iddynt i fyfyrïo'n dawel ar y negeseuon a'u priodoldeb mewn cymdeithas gyfoes ar faterion yn ymwneud a chydraddoldeb ac amrywiaeth ddoe a heddiw.

Mae'r ysgol yn adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar trwy drafodaethau staff. Mae effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn gydag elfennau rhagorol. Rhoddir cynhaliath briodol i'r holl ddisgyblion trwy'r bartneriaeth waith effeithiol rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion dysgu. Mae disgyblion ag anghenion penodol yn derbyn rhaglen o gymorth ychwanegol effeithiol, sy'n sicrhau eu bod yn gweithio i'w targedau er mwyn gwneud cynnydd i symud ymlaen yn gyflym i'r camau nesaf yn eu dysgu. Er enghraifft, cefnogir a rhoddir arweiniad priodol i'r disgyblion dawnus a thalentog i ragori yn eu gwaith, trwy eu herio a'u harwain i ddefnyddio yn gyson eu medrau meddwl a'u medrau creadigol i fynd i'r afael â'u tasgau.

Gwneir defnydd priodol o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol gan gynnwys y gwasanaethau lles addysg, meddygol ac argyfwng.

Ceir cysylltiad agos â rhieni wrth lunio a mesur cynnydd yn erbyn targedau ar gyfer gwella yn y cynlluniau addysgol unigol ac fe rennir arweiniad â hwy ar sut y gallent gefnogi eu plant. Caiff rhieni wybodaeth dda am gyflawniad a datblygiad eu plant.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned agos, groesawus a llawn gofal sy'n creu ethos cynhwysol iawn. Rhydd gyfle i bawb gael cyfle cyfartal a dengys pawb yr awydd i helpu a chefnogi ei gilydd. Mae'r ysgol yn meithrin disgyblion cyfrifol ac aeddfed, er

enghraifft drwy'r fenter 'Y Ffrindiau Ffeind' sy'n awyddus iawn i helpu ei gilydd a helpu eraill o fewn eu cymuned. Caiff disgyblion eu paratoi'n dda ar gyfer camau nesaf mewn addysg a bywyd.

Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac sy'n hybu cydraddoldeb ac mae'r rhain yn hysbys i rieni'r ysgol.

Mae'r ysgol ar safle braf a chaiff ei defnyddio'n bwrpasol. Mae'r buarth a chae'r ysgol mewn cyflwr da a chedwir hwy yn drefnus. Mae'r ardal tu allan ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen yn addas iawn. Fe'i defnyddir hi, yn ogystal â'r ardal wyllt yn effeithiol gan yr holl ddisgyblion ar gyfer gweithgareddau dysgu am gynladwyedd a'r amgylchedd.

Gwneir y defnydd gorau o adeilad nad yw'n ateb yn llawn i holl anghenion y cwricwlwm cyfredol. Er enghraifft, defnyddia'r ysgol y neuadd fechan ar gyfer gwasanaethau cyd-addoli, bwyta cinio a gwersi addysg gorfforol. Mae'r toiledau'n hen, er y gwneir pob ymdrech i'w cadw i safon dda. Mae'r ystafell staff hefyd yn gweithredu fel swyddfa'r ysgol a swyddfa'r pennaeth. Er gwaetha'r diffygion, mae'r holl staff yn gwneud ymdrech dda iawn i'w harddu gydag adnoddau ac arddangosfeydd, sy'n dangos parch arbennig i waith ac ymdrechion pob disgybl yn ogystal â chreu amgylchedd atyniadol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae gweledigaeth glir y pennaeth yn cael ei hyrwyddo gan yr holl staff, y llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned. O dan arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth, mae'r holl staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau gwelliannau pellach a datblygu gweithgareddau dysgu a dulliau addysgu newydd. Mae'r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel iawn ymhlith holl staff yr ysgol. Rheolir newid yn effeithiol iawn er mwyn hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy yn y dysgu a'r addysgu. O ganlyniad, mae plant ar draws yr ysgol yn elwa ar brofiadau dysgu dychmygus ac ysgogol.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dreiddgar o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Defnyddia'r ysgol arbenigedd llywodraethwyr yn effeithiol i sicrhau cyfeiriad strategol yr ysgol, sy'n cynnwys dadansoddiadau data i herio'r arweinyddiaeth fel cyfeillion beirniadol. Mae'r corff llywodraethol yn gwneud cyfraniad effeithiol at y broses o lunio adroddiad hunan arfarnu'r ysgol. Maent yn ymweld â dosbarthiadau ac yn ysgrifennu adroddiadau sy'n cynnwys arfarniadau treiddgar ar ansawdd yr hyn a welwyd. Maent hefyd yn cyflawni yn llawn eu dyletswyddau statudol.

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â bodloni nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Rhoddir sylw priodol i fabwysiadu ac i roi ar waith egwyddorion a gweithdrefnau yn deillio o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Datblygir yn rhagorol fedrau dwyieithrwydd y disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae strategaeth lythrennedd yr ysgol yn sicrhau fod dwyieithrwydd yn cael sylw teilwng, a bod y Gymraeg yn gonglfaen i holl weithgareddau'r ysgol, ac yn treiddio drwy'r cwricwlwm cyfan.

Gwella ansawdd: Da

Mae systemau hunan arfarnu wedi eu sefydlu'n gadarn ac effeithiol yng ngweithdrefnau'r ysgol. Mae'r adroddiad hunan arfarnu wedi ei seilio ar safbwyntiau'r holl rhanddeiliaid, a chaiff ei rhannu'n briodol gyda'r holl staff a'r llywodraethwyr. Mae yn ddarlun cywir o gryfderau ac agweddau sydd angen eu datblygu'n ymhellach.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn blaenoriaethu'n briodol y gwelliannau sydd eu hangen, gyda ffocws clir ar sicrhau gwelliannau pellach i safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu.

Mae gweithio ar y cyd ac ysgolion bach gwledig eraill y dalgylch, a thu hwnt gydag ysgolion y teulu, i rannu arbenigedd a syniadau fel cymunedau dysgu proffesiynol yn elfen gadarnhaol iawn o waith yr ysgol. Mae'r arbenigedd a'r profiad a rennir yn y gymuned ddysgu broffesiynol rhwng clwstwr o bedair o ysgolion fach gwledig yr ardal yn gyfrwng dylanwadol iawn i godi safonau ac ansawdd y ddarpariaeth addysgol ymhellach. Mae hyn yn sicrhau fod yr ysgol yn manteisio i'r eithaf ar ddysgu ac addysgu effeithiol iawn sy'n galluogi'r disgyblion i rhagori yn eu gwaith. Mae cynlluniau priodol ar y gweill i ddatblygu a gwella ymhellach y ddarpariaeth ar y cyd yn llythrennedd a rhifedd ac i gael cytundeb gwell ar lefelau gwaith disgyblion yn saith ac 11 mlwydd oed.

Gwnaed cynnydd priodol gan yr ysgol o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad arolygiad diwethaf.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae partneriaethau strategol yr ysgol â'r rhieni, y gymuned, mudiadau a busnesau lleol yn gryfder, ac yn cyfrannu'n effeithiol iawn at wireddu nodau'r ysgol.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn gref. Llwydda'r ysgol i gynnwys y rhieni bron ym mhob agwedd o'i gwaith, gan gynnwys, gofyn iddynt fynegi yn ysgrifenedig eu barn am briodoldeb targedau a osodwyd gan yr ysgol ar gyfer eu plant. Cynhelir cyfarfodydd tymhorol iddynt, ac mae'r ysgol wedi trefnu sesiynau defnyddiol i esbonio agweddau cwricwlaidd iddynt.

Mae'r cyswllt agos gyda chylch meithrin y pentref, sydd yn hwyluso trosglwyddiad plant i ddosbarth derbyn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos gyda sawl asiantaeth sy'n darparu cefnogaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ystod eang o asiantaethau yn rhoi gweithgaredd a phrofiadau gwerthfawr i'r disgyblion, er mwyn cyfoethogi eu hymwybyddiaeth o'r gymuned leol, ac o'r byd y tu hwnt i'r ysgol. Mae'r ysgol yn darparu profiad gwaith priodol i ddisgyblion o'r ysgol uwchradd gyfagos.

Ceir cysylltiadau niferus gydag ysgolion cynradd eraill, a chyda'r ysgol uwchradd er mwyn elwa o gryfderau cwricwlaidd y naill a'r llall. Mae'r cysylltiadau effeithiol yma'n galluogi'r disgyblion i gyrraedd eu potensial a chyflawni safonau uchel, ac yn herio'r disgyblion mwy dawnus a thalentog i ragori yn eu gwaith.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gyflym a phriodol iawn i sylwadau a chynngor swyddogion gwella ysgolion yr awdurdod lleol, er mwyn sicrhau gwelliannau pellach yn ei bywyd a'i gwaith.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol y nifer priodol o athrawon a chynorthwyr dosbarth. Cânt eu lleoli'n dda i wneud y defnydd gorau o'u sgiliau addysgu arbenigol. Defnyddir yn effeithiol iawn pobl o'r gymuned ac ymwelwyr i hybu'r addysgu ar draws holl agweddau o'r cwricwlwm.

Gwna'r athrawon ddefnydd addas o'u cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu i drefnu gwersi ac i asesu gwaith y disgyblion. Mae athrawon a disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o gyfrifiaduron ac offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu arall.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles disgyblion. Mae'r rheolwyr yn sicrhau fod cyllideb yr ysgol yn cael ei gwario mewn modd sy'n cefnogi blaenoriaethau'r ysgol. Mae rhannu adnoddau â phartneriaid mewn ysgolion bach eraill y clwstwr yn gryfder.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth rhagorol am arian oherwydd ei bod yn gweithio'n effeithiol iawn fel cymuned ddysgu, yn rheoli ei hadnoddau'n dda iawn i ganiatáu'r holl ddisgyblion gyrraedd eu potential, gan gynnwys y disgyblion dawnus a thalentog.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Dengys canlyniadau asesiadau athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol ers 2007, bod cyraeddiadau'r disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn saith oed (lefel 2) ac yn 11 oed (lefel 4) gan mwyaf wedi bod yn gyson uwch nag yn ysgolion y teulu a'r ffigurau cenedlaethol. Mae'r dangosydd pwnc craidd, sy'n dangos y lefel ddisgwyliedig yn y tri phwnc craidd ar gyfer disgyblion saith oed, wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau ysgolion y teulu a'r ffigurau cenedlaethol, mewn pedair allan o'r pum mlynedd ers 2007.

Yn 2011, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, yn saith oed yn Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion y teulu, a Chymru. Mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 3) yn saith oed, yn sylweddol uwch yn y Gymraeg, ac ychydig uwch yng ngwyddoniaeth. Ym mathemateg, mae eu cyrhaeddiad yn uwch na'r cenedlaethol, ond yn is na'r teulu o ysgolion.

O gymharu perfformiad y disgyblion yn saith oed gyda disgyblion mewn ysgolion tebyg o ran hawl i ginio ysgol am ddim, mae'r canlyniadau yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yn y Gymraeg mewn pedair allan o bum mlynedd ers 2010, a mathemateg a gwyddoniaeth mewn tair blynedd.

Yn 2011, mae cyrhaeddiad y disgyblion yn 11 oed ar y lefel ddisgwyliedig yn Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch nag ysgolion y teulu a'r cenedlaethol. Mae canlyniadau'r disgyblion yn Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5), yn 2011, yn uwch nag ysgolion y teulu, ar genedlaethol. Nid yw perfformiad y disgyblion cystal yn Saesneg ar y lefel uwch na'r disgwyl, lle mae eu perfformiad ers 2009 wedi bod yn is nac ysgolion y teulu a'r cenedlaethol.

O gymharu perfformiad y disgyblion yn 11 oed gyda'u cyfoedion mewn ysgolion tebyg o ran cefndir cymdeithasol economaidd yng Nghymru, mae'r canlyniadau ers 2007 yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf yn Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac am y dangosydd pwnc craidd ar y lefel ddisgwyliedig. Mae'r canlyniadau disgyblion cystal ar yr y lefel uwch na'r disgwyl, oni bai am y Saesneg, lle mae'r perfformiad y disgyblion wedi amrywio rhwng y 25% uchaf i'r 25% isaf yn ystod yr un cyfnod.

Drwy'r ysgol, does dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn, na yn berfformiad disgyblion â'r hawl i ginio ysgol am ddim.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafwyd 31 ymateb i'r holiadur i rieni neu ofalwyr. At ei gilydd, mae bron pawb yn mynegi lefelau uchel o foddhad gyda'r ysgol. Mae cyfran yr ymatebion cadarnhaol y rhieni yn y mwyafrif o'r ymatebion yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd rieni mewn ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Mae'r rhieni yn datgan bod eu plant yn cael eu trin a pharch, yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a bod y staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed, a gwneud eu gorau. Mae pob un yn cytuno fod yr ysgol yn cael ei harwain yn effeithiol, a bod eu plant yn mwynhau'r ysgol, a'u bod wedi ymgartrefu'n dda wrth ymuno â'r ysgol am y tro cyntaf. Mae pawb yn fodlon ag ymddygiad y plant yn yr ysgol. Mae pawb yn credu bod ansawdd yr addysgu yn dda, ac yn nodi bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Mae pawb yn cytuno fod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau, a bod yr ysgol yn helpu eu plant i ddod yn fwy aeddfed, ac i ysgwyddo cyfrifoldebau.

Mae ychydig bach o'r rhieni yn credu nad yw gwaith cartref yn adeiladu'n ddigon da ar y gwaith a wna eu plant yn yr ysgol. Mae ychydig iawn hefyd yn anghytuno bod eu plant yn derbyn cefnogaeth briodol ychwanegol mewn perthynas ag anghenion unigol penodol. Mae bron yr un canran yn anghytuno â'r datganiad eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am gynnydd eu plentyn. Mae pob rhiant yn deall trefn yr ysgol ar gyfer codi cwyn, ac yn nodi eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Fe wnaeth 31 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gwblhau'r holiadur. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion yn gadarnhaol iawn. Yn gyffredinol, roedd cyfran yr ymatebion cadarnhaol yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae pob disgybl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i siarad pan fyddant yn teimlo'n bryderus neu'n ofidus. Mae bron pob un yn nodi bod yr ysgol yn ymdrin ag unrhyw fwlio'n effeithiol. Mae disgyblion yn nodi eu bod yn cael llawer o gyfleoedd i gadw'n iach a heini. Mae bron i bawb yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, fod ganddynt ddigon o offer, llyfrau a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith, a bod athrawon a staff cymorth yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn datgan peth pryder am ymddygiad rhai disgyblion eraill ar brydiau yn y dosbarth, a bod gwaith cartref ddim yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith cartref yn ddigonol. Mae'r ymatebion i'r ddwy agwedd yma ychydig uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Jeff Jones	Arolygydd Cofnodol
Prydwen Elfed-Owens	Arolygydd Tîm
Glenda Jones	Arolygydd Lleyg
Eirianwen Williams	Arolygydd Cymheiriaid
Dilys Elis-Jones	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Cwricwlwm Cenedlaethol

Lefelau disgwylidig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.